



Os ydych yn nodi manylion personol ar y rhestr wirio hon, cadwch hi rywle diogel

Mae'r rhestr wirio hon i gwplau sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol. Cyn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, rhaid i bob un o'r canlynol fod ar gael i chi:

<p><b>E-bost</b></p>	<p>Rhaid bod gan y ddau ohonoch gyfeiriad e-bost yr un er mwyn ceisio am Gredyd Cynhwysol, oherwydd bydd eich Anogwr Gwaith yn cysylltu â chi ar wahân.</p> <p>Os oes arnoch chi angen cymorth i greu cyfeiriad e-bost, gallwch gael hyd i'ch Canolfan Ar-lein agosach <a href="http://www.onlinecentresnetwork.org/ournetwork/find-centre">www.onlinecentresnetwork.org/ournetwork/find-centre</a> lle bydd rhywun yn gallu eich cynorthwyo.</p>
<p><b>Mynediad i gyfrifiadur</b></p>	<p>Gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron yn eich llyfrgell leol neu Ganolfan Ar-lein.</p>
<p><b>Cyfrif Banc</b></p>	<p>Fel cwpl, bydd angen gyfrif banc gennych y gellid talu eich Credyd Cynhwysol i mewn iddi. Os nad oes gennych chi gyfrif banc, mae gwybodaeth ynglŷn â dewis cyfrif banc ar gyfer budd-daliadau ar wefan y gwasanaeth Cyngor Arian.</p> <p><a href="https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/dewis-cyfrif-banc-ar-gyfer-eich-taliad-credyd-cynhwysol">https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/dewis-cyfrif-banc-ar-gyfer-eich-taliad-credyd-cynhwysol</a></p>
<p><b>Rhif Yswiriant Cenedlaethol</b></p>	<p>Os ydych wedi colli eich cerdyn Yswiriant Cenedlaethol, gallwch gael hyd i'ch rhif ar slipiau cyflog, lythyrau oddi wrth CThEM neu lythyrau dyfarnu budd-dal. Ar gyfer rhifau Yswiriant Cenedlaethol a aeth ar goll ewch at: <a href="http://www.gov.uk/lost-national-insurance-number">www.gov.uk/lost-national-insurance-number</a></p>

Bydd yn rhaid i chi a'ch partner cwblhau ffurflen gais Credyd Cynhwysol yr un os ydy ill dau yn hawlio Credyd Cynhwysol. Gallwch gysylltu eich ceisiadau at ei gilydd trwy fewngofnodi i'ch cyfrifon Credyd Cynhwysol ar GOV.UK.

Mae'n syniad da i gael yr holl ddogfennau canlynol yn barod ac mewn trefn cyn i chi neu'ch partner gychwyn eich ceisiadau. Gall bod yn fuddiol hefyd i amlygu unrhyw gyfeirnodau y byddwch eu hangen. Byddwch angen y dogfennau hyn hefyd pan yr ewch chi am y cyfweiliad yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Eich cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad e-bost eich partner

Rhif eich ffôn symudol

Rhif ffôn symudol  
eich partner

Eich cod post

Eich rhif Yswiriant  
Cenedlaethol

Rhif Yswiriant Cenedlaethol  
eich partner

Y cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd y bydd eich Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu i mewn iddo:

Enw'r banc

Rhif y cyfrif

Cod didoli

Math o le rydych yn byw ynddo (e.e. rhentu preifat, morgais preifat, tenant y cyngor neu denant gymdeithas tai)

Pa mor aml ydy'ch rhent/tal am y  
tŷ yn cael ei dalu (e.e. yn fisol  
neu bob pedwar wythnos)

Maint eich rhent

Cyfeiriad eich landlord

Rhif ffôn eich landlord

*Gallwch gael hyd i fanylion eich rhent a chyfeiriad a rhif ffôn eich landlord ar eich cytundeb rhentu, eich cyfriflen rhent neu lyfr rhent. Bydd angen copi o un o'r rhain ar gyfer eich cais Credyd Cynhwysol.*

Gall bod angen i chi gynnwys gwybodaeth ychwanegol, yn dibynnu ar amgylchiadau chi neu'ch partner. Darllenwch drwy'r rhestr wirio, ac os oes rhai o'r canlynol yn berthnasol i chi neu'ch partner, yna bydd angen i chi eu cynnwys yn eich cais.

- Manylion am gynilion neu fuddsoddiadau sydd gennych chi neu'ch partner
- Manylion am unrhyw incwm nad yw'n dod o waith (chi neu'ch partner) e.e. pensiwn preifat
- Manylion am incwm o waith (chi neu'ch partner)
- Manylion am unrhyw fudd-daliadau eraill a dderbynnir gennych chi neu'ch partner (pa fudd-daliadau a faint rydych wedi ei dderbyn)
- Faint rydych yn talu am ofal plant (os ydych yn hawlio cost hwn yn eich cais)
- Manylion am ddarparwr eich gofal plant (Cyfeirnod Gofal Plant (Ofsted) fel arfer yn cychwyn gyda EY)
- Manylion am unrhyw gyflyrau iechyd a'ch 'Nodyn Ffitrwydd' diweddaraf